

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## SWYDD DISGRIFIAD

<b>Teitl y Swydd:</b>	<b>RHEOLWR CYNLLUNIO</b>
<b>Cyflog:</b>	Graddfa 13 Pwyntiau 36 - 38
<b>Lleoliad:</b>	Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth.
<b>Atebol i:</b>	Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir
<b>Cyfrifol am:</b>	Prif Swyddogion Cynllunio

### 1. CYD-DESTUN

- 1.1 Mae'r swydd wedi'i gosod yng nghyd-destun cyfrifoldebau statudol y Parc Cenedlaethol, ac mae'n gofyn am weithredu'r 2 Bwrpas a'r Dyletswyddau Statudol yng nghyd-destun rôl statudol yr Awdurdod fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI).
- 1.2 Mae hwn yn wasanaeth rheng flaen allweddol i'r Awdurdod. Bydd yr adran yn cyflawni rôl Awdurdod y Parc Cenedlaethol fel ACLI, ac mae'n gyfrifol am baratoi ac adolygu'r Cynllun Datblygu statudol a pharatoi polisi a chanllawiau eraill, penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio amrywiol, darparu cyngor cynllunio, a gweithredu gorfodaeth pan fo datblygiadau di-awdurdod yn digwydd.
- 1.3 Mae'r Rheolwr Cynllunio yn atebol o dan oruchwyliaeth a chyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir am gyflawni'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn effeithlon ac mae'r swydd yn ymfyn am y gallu i strwythuro materion cymhleth o fewn polisiau a gweithdrefnau sefydledig i gyrraedd penderfyniadau cytbwys a rhesymegol.
- 1.4 Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth 5 Prif Swyddog Cynllunio, 3 Swyddog Cynllunio, Swyddog Amgylchedd Adeiledig, Cynorthwy-ydd Ymchwil / Cynllunio, Uwch Dechnegydd, Technegydd, Cynorthwy-ydd Gweinyddol (0.5 CLIA). Bydd gan y Rheolwr gyfrifoldeb rheoli llinell uniongyrchol ar gyfer y Prif Swyddogion Cynllunio.

### 2. PWRPAS Y SWYDD

- 2.1 Sicrhau bod y Gwasanaeth Cynllunio yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon ac i gynghori'r Awdurdod ar faterion o dan unrhyw bolisi a deddfwriaeth berthnasol.
- 2.2 Sicrhau bod gan yr Awdurdod Gynllun Datblygu cyfredol ynghyd ag unrhyw arweiniad ategol i hynny a Chanllawiau Cynllunio Atodol.
- 2.3 Sicrhau bod y swyddogaeth Rheoli Datblygu yn cael ei chyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnwys Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth, a chynghori'r Awdurdod ar faterion o dan unrhyw bolisi a deddfwriaeth berthnasol arall.
- 2.4 Sicrhau bod y swyddogaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio yn cael ei chyflawni'n effeithiol ac yn effeithlon a chynghori'r Awdurdod ar faterion dan unrhyw bolisi a deddfwriaeth berthnasol arall.

### **3. PRIF GYFRIFOLDEBAU**

#### **PROFFESIYNOL**

- 3.1 Sicrhau bod y gwasanaeth yn paratoi, monitro ac yn adolygu Cynllun Datblygu'r Awdurdod ac unrhyw bolisi ategol arall yn effeithiol a sicrhau ei fod yn cyd-fynd gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol.
- 3.2 Sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu'r swyddogaeth Rheoli Datblygu yn effeithiol yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys prosesu, penderfynu a chyflawni'r holl geisiadau perthnasol am ganiatâd cynllunio (gan gynnwys Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), a sicrhau system effeithlon o ddarparu cyngor cyn gwneud cais
- 3.3 Sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu materion Cydymffurfiaeth Cynllunio yn effeithiol ar hyd a lled ardal y Parc Cenedlaethol.
- 3.4 Cyngori'r Awdurdod a'r Pwyllgorau ar faterion polisi cynllunio, ceisiadau am ganiatâd cynllunio, achosion cydymffurfiaeth ac unrhyw fater cynllunio perthnasol arall.
- 3.5 Goruchwylio dyluniad, comisiynu a goruchwylio gwaith arolwg ac ymchwil mewnol ac allanol a goruchwylio unrhyw gontractau o'r fath.
- 3.6 Sicrhau bod y gwasanaeth Cynllunio yn cwrdd â thargedau perfformiad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag unrhyw safonau perfformiad a gwasanaeth cwsmeriaid eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau corfforaethol yr Awdurdod
- 3.7 Cynrychioli'r Awdurdod ar unrhyw grwpiau perthnasol sy'n berthnasol i waith y Gwasanaeth.
- 3.8 Rhoi cyfarwyddiadau priodol, a chynorthwyo aelodau'r tîm gyda phenderfynu ar unrhyw geisiadau, apeliadau a gwaith achos cydymffurfiaeth fel bo'r angen. Bydd hyn yn cynnwys llofnodi'r Hysbysiadau Penderfyniadau Cynllunio.
- 3.9 Fel y tybir sy'n angenrheidiol gan y Cyfarwyddwr neu ddeilydd y swydd, bod yn gyfrifol am ymdrin â cheisiadau cynllunio, apeliadau a gwaith achos cydymffurfiaeth.
- 3.10 Fel y tybir sy'n angenrheidiol gan y Cyfarwyddwr neu ddeilydd y swydd, cyfrannu at y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu, gan gynnwys rhoi tystiolaeth yn yr Archwiliad, fel bo'r angen.
- 3.11 Arwain a cefnogi aelodau'r tîm gyda, neu ymddangos fel Tyst cynllunio arbenigol mewn ymholiadau cyhoeddus ac achosion Llys neu Archwiliadau o'r CDLI fel bo'r angen

#### **RHEOLAETHOL**

- 3.12 Diffinio, cyfarwyddo a rheoli gwaith y gwasanaeth a'i staff, gan gynnwys paratoi 'Strategaeth Gynllunio' ar gyfer yr Adran sy'n nodi nodau ac amcanion allweddol, ynghyd â dyrannu cyllideb ac adnoddau.
- 3.13 Cynrychioli diddordeb y gwasanaeth mewn perthynas â materion corfforaethol.
- 3.14 Paratoi, archwilio a chyflwyno adroddiadau a rhoi cyngor yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad, Gweithgorau, Paneli Cyngori, gan gynnwys cyfarfodydd allanol a chyfarfodydd y tu allan i oriau gwaith arferol.
- 3.15 Cyfathrebu'n effeithiol â staff a defnyddwyr y gwasanaeth a datblygu arferion a gweithdrefnau sy'n cefnogi, ysgogi a hyfforddi staff ac aelodau.
- 3.16 Rheoli cyllideb yr Adran yn effeithiol.

- 3.17 Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cynllunio yn ôl yr angen a chyngori'r Awdurdod a'r Pwyllgorau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio, apeliadau ac achosion cydymffurfiaeth.
- 3.18 Rheoli'r cynllun dirprwyo ar gyfer y Gwasanaeth.
- 3.19 Cyfathrebu'n effeithiol â staff a defnyddwyr y gwasanaeth a datblygu arferion a gweithdrefnau sy'n cefnogi, ysgogi a hyfforddi staff ac aelodau.
- 3.20 Hyrwyddo diwylliant arloesol, traws-wasanaeth, gan sicrhau cyfathrebu da gydag asiantau, datblygwyr, aelodau'r cyhoedd ac integreiddiad â gwasanaethau eraill - gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau ac asiantaethau eraill.
- 3.21 Paratoi, comisiynu a goruchwylio contractau allanol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.
- 3.22 Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sydd gymesur â graddfa'r swydd

## **CORFFORAETHOL**

- 3.23 Cymryd rhan weithgar yn natblygiad a mabwysiadu strategaethau, cynlluniau a pholisïau'r Awdurdod, gan gynnwys Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
- 3.24 Cynorthwyo gyda phenodi, datblygu, hyfforddi, ymddygiad, perfformiad a gwerthuso staff a gyflogir o fewn y Gwasanaeth, a helpu i sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni o ran lechyd a Diogelwch.
- 3.25 Sicrhau bod y Gwasanaeth Cynllunio yn darparu'r safonau gwasanaeth cwsmeriaid uchaf posibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael.
- 3.26 Sicrhau bod y Gwasanaeth yn cyflawni'r gwelliannau mewn safonau perfformiad a gwasanaeth cwsmeriaid sydd yng Nghynllun Corfforaethol yr Awdurdod.
- 3.27 Rheoli lles staff y tîm.
- 3.28 Rhoi ystyriaeth gyffredinol i bolisi a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch yr Awdurdod a'ch iechyd a'ch diogelwch chi eich hunan ac eraill.
- 3.29 Sicrhau bod egwyddorion gofal cwsmer ardderchog yn cael eu cymhwyso i bob elfen o gyflenwi gwasanaethau.
- 3.30 Ymrwymo i ymgymryd â swyddogaethau corfforaethol eraill yn ôl yr angen e.e. i fod yn rhan o'r Paneli Gwerthuso Swyddi, i ymgymryd ag ymchwiliadau a gwrandawiadau disgyblu a chwynion

## **4. CYSYLLTIADAU GWEITHIO**

- 4.1 Gweithio mewn cysylltiad â phartneriaethau a chyrrff cyhoeddus a chyrrff eraill a datblygu partneriaethau, gan gynnwys:
  - Aelodau'r Awdurdod
  - Y cyhoedd yn gyffredinol
  - Cynghorau Cymuned
  - Llywodraeth Cymru
  - Awdurdodau lleol
  - Asiantaethau'r Llywodraeth
  - Ymgynghoreion Statudol
  - Y Sector Wirfoddol
  - Datblygwyr ac Asiantau Cynllunio
  - RTPI

## MANYLEB BERSONOL

<b>Proffesiynol Hanfodol</b>	<b>Personol Hanfodol</b>
Aelodaeth Gyflawn o RTPI	Person llawn cymhelliant a brwdfrydig iawn
Profiad cynllunio perthnasol ar lefel uwch	Ystyrir bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn hanfodol
Profiad o Reoli Prosiectau	Sgiliau rheoli amser da
Profiad profedig o sgiliau arweinyddiaeth a rheolaethol, gan gynnwys profiad o reoli tîm	Parodrwydd i weithio gyda'r nos a phenwythnosau yn achlysurol
Sgiliau TG da gan gynnwys cymhwysedd wrth ddefnyddio meddalwedd Microsoft Office a cheisiadau TG perthnasol eraill	Trwydded yrru ddilys
	Meddu ar allu i feddwl yn glir, yn strategol a dychmygus mewn sefyllfaoedd anodd
	Y gallu i weithio'n unigol ac fel rhan o dîm
	Yn gallu cyfathrebu syniadau a chysyniadau yn wych, yn meddu ar safon uchel o sgiliau llafar ac ysgrifenedig ac yn meddu ar y gallu i feddwl yn glir ac yn ddychmygus mewn sefyllfaoedd anodd.

<b>Proffesiynol Dymunol</b>	<b>Personol Dymunol</b>
Gwybodaeth weithredol am yr ystod eang o faterion cynllunio a rheoli cyfoes sy'n effeithio ar ardal wledig	Dealltwriaeth dda o faterion sy'n effeithio ar Barciau Cenedlaethol, yn enwedig yng nghydestun Eryri.
Profiad o'r materion cynllunio penodol sy'n effeithio ar Barciau Cenedlaethol	
Profiad o ddefnyddio Microsoft Project	
Profiad o ddefnyddio GIS	
Profiad o ymdrin â cheisiadau cynllunio cymhleth neu faterion cymhleth sydd a wnelo'r cynllun datblygu	